## Crynodeb

Comisiynwyd yr adroddiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i werthuso lleoliad a chyfaint adnoddau posibl y gellid eu gweithio o agregau mwynau mân ar y tir yn Ardal Awdurdodau Cynllunio Mwynau Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri; i edrych ar botensial masnachol yr adnoddau; i ganfod cyfyngiadau amgylcheddol ar ddatblygu yn y dyfodol ac i wneud argymhellion ynglyn â'r dulliau mwyaf priodol o ddiogelu'r adnoddau.

Trwy adolygu data presennol, nodwyd bod deng ardal bosibl lle'r oedd yn debygol y gellid gweithio mwynau. Mapiwyd pob un o'r rhain yn geomorffolegol a nodwyd 89 bloc lle'r oedd potensial o gael mwynau. Cafodd pob bloc ei werthuso'n dechnegol, yn seiliedig ar ddadansoddiad o ddata oedd eisoes yn bodoli a rhaglen fapio ddaearegol a rhaglen dyllau turio gyfyngedig, er mwyn penderfynu maint ac ansawdd y mwynau posibl. Yn gyfan gwbl, nodwyd tua 530 miliwn o dunelli o fwynau posibl, wedi'i rannu'n 270 miliwn o dunelli o dywod a 260 miliwn o dunelli o raean. Ar lefel sirol mae 92% o fwynau posibl ar gael yng Ngwynedd, gyda llai na 8% yng Nghonwy a Môn gyda'i gilydd a nemor ddim yn ardal y Parc Cenedlaethol. Ar lefel leol mae'r crynhoad mwyaf o adnoddau, mwy na 75% rhyngddynt, i'w cael mewn tair ardal yn unig: Cors Geirch i'r gogledd o Bwllheli; de Nefyn a Phenygroes, y tair ardal yng Ngwynedd. Roedd llai na 25% yn yr holl ardaloedd eraill. Yn ardaloedd Cors Geirch a Nefyn mae oddeutu 75 % o'r mwynau posibl yn dywod; yn ardal Penygroes mae'r gwrthwyneb yn wir. Yn gyffredinol nid yw dosbarthiad y mwynau yn cyfateb i'r ardaloedd lle mae galw am fwynau, a siomedig brin yw'r adnoddau o ran mwynau posibl yn ardaloedd Caernarfon, Bangor a Chonwy-Llandudno-Bae Colwyn.

Mae tua 60% o'r blociau adnodd posibl a nodwyd yn yr ardal yn cael eu heffeithio gan un neu ragor o gyfyngiadau cynllunio sylweddol neu ddynodiadau amgylcheddol. Er nad yw hyn yn atal y posibilrwydd o ran eu datblygu yn y dyfodol, y mae er hynny'n tynnu sylw at y gwrthdaro posibl a fyddai'n debygol o ddigwydd pe bai angen gweithio'r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio. Fel rhan o'r astudiaeth hon mae'r holl gyfyngiadau cynllunio ac amgylcheddol sy'n effeithio ar bob bloc wedi'u nodi gyda system sgorio syml fel sail resymegol ar gyfer penderfynu lefel gyffredinol y cyfyngiad sy'n effeithio ar bob bloc adnodd unigol.

Oni bai fod newid sylweddol am resymau amgylcheddol, gwleidyddol neu economaidd, tybir bod y sefyllfa, o ran cyflenwadau yng Ngogledd Orllewin Cymru, sydd i'w cael ar y tir yn bennaf gyda chyflenwad morol hefyd, yn debygol o barhau yn y dyfodol rhagweladwy. O ganlyniad, mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion. Y prif argymhellion yw y dylai Gwynedd barhau i ddarparu'r rhan fwyaf o raean a thywod yn yr ardal drwy barhau i ddatblygu yn ardal Penygroes; y dylai Conwy barhau i ateb y galw trwy sicrhau cerrig neu gerrig mâl o ardaloedd eraill; y dylai Ynys Môn ddiogelu ardaloedd o gwmpas Pentraeth i gyflenwi'r galw ar yr ynys, ac mewn mannau eraill, dylid nodi Ardaloedd lle Rhagdybir bod Mwynau i gynnwys blociau o ansawdd arbennig neu werth masnachol posibl. Oherwydd maint ac ansawdd y tywod sydd wedi'i nodi yng Nghors Geirch a Nefyn, dylai'r ardaloedd hyn hefyd gael eu diogelu rhag eu sterileiddio. Hefyd argymhellir gwneud gwaith ymchwil pellach o ran fframwaith polisi cynllunio ar gyfer datblygu cyflenwad cynaladawy o agregau trwy rwydwaith o chwareli lleol bach sy'n cyflenwi'n lleol yn y Parc Cenedlaethol ac ardaloedd gwledig eraill yn y rhanbarth.